# Ailarolygiad

**o**

## Ysgol Gynradd Y Parc
**Newry Fields**
**Caergybi**
**Ynys Môn**
**LL65 1LA**

**Gorffennaf 2010**

Arolygwyd Ysgol Gynradd Y Parc yng Ngorffennaf 2009 a barnwyd bod angen mesurau arbennig arni. Fel rhan o ofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt, mae Estyn wedi cynnal arolygiadau monitro rheolaidd, sydd wedi canolbwyntio ar y prif faterion ac argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad arolygu a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2009 ac mewn ymweliadau monitro dilynol.

Bernir bod Ysgol Gynradd Y Parc wedi gwneud cynnydd da o ran yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr arolygiad Adran 28 yng Ngorffennaf 2009. O ganlyniad i'r cynnydd hwn, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol allan o fesurau arbennig.

**Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf**

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd ym mhob un o'r wyth argymhelliad yn deillio o adroddiad arolygu Adran 28 o haf 2009.

**Gwnaed cynnydd da iawn yn y canlynol**:

**A1 gweithredu ar fyrder i sefydlu perthynas waith gadarnhaol rhwng arweinwyr yr ysgol ac aelodau o'r staff addysgu.**

Mae'r ansicrwydd ynglŷn ag arweinyddiaeth yr ysgol yn y dyfodol wedi cael eu datrys i raddau helaeth yn sgil ymddiswyddiad y pennaeth a phenodiad diweddar y pennaeth dros dro presennol i'r swydd am gyfnod o flwyddyn. Bydd hyn yn rhoi hwb hanfodol i gynllunio tymor canol, yn ogystal ag adeiladu ar y gwelliannau a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r pennaeth dros dro yn parhau i gynnig arweinyddiaeth dda ac mae'n llwyddo i feithrin gwaith tîm da ar gyfer cyflwyno'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Mae ethos cadarnhaol iawn yn parhau yn yr ysgol, wedi'i ddatblygu ar sail ymdeimlad clir o bwrpas ar y cyd a chyfeiriad cyffredin. Mae athrawon fwyfwy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd mewn ffordd fwy systematig a strwythuredig nag o'r blaen ac mae hyn yn arwain at weithio effeithiol ar y cyd a chynllunio gwell. Mae athrawon a'r staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ym mhob dosbarth.

**A6 sicrhau defnydd effeithlon o’r gyllideb ysgol, gan ddiwallu anghenion adnoddau penodol;**

Mae’r ysgol wedi gweithredu’n brydlon i fynd i’r afael â’r argymhelliad hwn ac o ganlyniad, mae’r gweddillion ariannol o fewn yr argymhellion sy’n cael eu hawgrymu gan y Comisiwn Archwilio. Mae’r pennaeth dros dro wedi gwario’r arian yn effeithiol er mwyn cefnogi’r materion gwella ysgol a nodwyd yn y cynllun gweithredu ôl-arolygiad.

**A8 datblygu ymhellach ddealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith;**

Mae ymweliadau addysgol diweddar â’r ardal leol, ac astudiaethau diweddar ohoni, wedi dechrau gwella’r ddarpariaeth ynghylch byd gwaith**.**

**Gwnaed cynnydd da yn y canlynol:**

**A2 codi safonau cyflawniad disgyblion mewn mathemateg a Chymraeg (ail iaith) yng nghyfnod allweddol 2, ac mewn cerddoriaeth trwy’r ysgol.**

Mae safonau cyflawniad disgyblion mewn mathemateg ac mewn cerddoriaeth yn CA2 wedi gwella. Mae nodweddion da bellach yn gorbwyso diffygion yn y ddau bwnc. Mae cynllun gwaith diwygiedig ar gyfer mathemateg yng nghyfnod allweddol 2 yn dechrau cael effaith ar yr addysgu a’r dysgu ac, o ganlyniad, mae’r safonau wedi gwella yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Mae cyflwyno strategaethau mathemateg meddwl yn ddiweddar yn dechrau datblygu dealltwriaeth disgyblion o ffeithiau mathemateg a’u gallu i adalw ffeithiau mathemateg ymhellach.

Erbyn hyn, mae gan ddull yr ysgol o addysgu a dysgu Cymraeg fwy o ymdeimlad o bwrpas a chyfeiriad. Mae hyn yn arbennig o wir yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 1 ac mewn dau ddosbarth yng nghyfnod allweddol 2. Yn y dosbarthiadau hyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos mwy o hyder pan fyddant yn siarad Cymraeg. Maent yn darllen ac yn ysgrifennu ymadroddion a brawddegau syml yn hyderus ac yn fwyfwy cywir. Fodd bynnag, mae disgyblion yn cael anawsterau o ran rhoi ymatebion llafar estynedig. Yn y gwersi gorau, mae athrawon yn defnyddio’r Gymraeg fel cyfrwng cyfarwyddo drwy gydol y wers. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o’u gwaith presennol a blaenorol. Yn y dosbarthiadau cyfnod allweddol 2 a arsylwyd, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg; maent yn mwynhau eu gwaith ac yn cymryd rhan yn hyderus yn yr ystod dda o weithgareddau sy’n cael eu cynnig. Mae angen i’r ysgol adeiladu ar yr arfer dda a welwyd yn y dosbarthiadau hyn ac ymestyn medrau siarad a gwrando disgyblion ymhellach er mwyn codi’r safonau mewn Cymraeg drwy’r ysgol.

Gwnaed cynnydd da ar draws yr ysgol o ran mynd i'r afael â'r diffygion mewn Cerddoriaeth. Mae'r trefniant diweddar i gydlynydd cerddoriaeth weithio gydag athrawon eraill i ddatblygu cynllunio gwaith ar gyfansoddi yn cael effaith gadarnhaol ar gyflwyno'r pwnc gan athrawon nad ydynt yn arbenigo mewn cerddoriaeth.

**A3 rhoi sylw i'r diffygion yn yr addysgu a nodir yng nghwestiwn allweddol 2;**

Arsylwyd ar wyth gwers yn ystod yr ymweliad. Roedd y rhan fwyaf o'r addysgu yn dda neu'n well ac roedd lleiafrif ohono yn foddhaol. Ni arsylwyd ar unrhyw addysgu anfoddhaol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio gwersi'n dda ac mae cydbwysedd da rhwng gwaith dosbarth cyfan a gwaith grŵp sy'n cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae tystiolaeth gynyddol o gynllunio ar gyfer gwahaniaethu, ac mae'r gorau o hyn yn effeithiol iawn. Mae canfyddiadau'r athrawon ynghylch beth mae'r disgyblion yn ei wybod ac yn gallu ei wneud yn parhau i godi ac mae eu disgwyliadau ynghylch cyflwyniad gwaith disgyblion mewn amrywiaeth o fformatau bellach yn dda yn gyffredinol. Mae athrawon yn myfyrio ar gyngor a ddaw yn sgil arsylwadau ar wersi gan uwch reolwyr ac ymgynghorwyr yr ALl, ac maent yn gweithredu'n briodol ar y cyngor hwn.

**A5 sefydlu cysondeb yn y prosesau ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion;**

Mae system olrhain ysgol gyfan yn cael ei defnyddio'n gyson ar draws yr ysgol. Mae gwybodaeth o gynlluniau asesu sy'n cael eu cynhyrchu'n genedlaethol yn gwasanaethu fel gwaelodlin, ar y cyd ag asesiadau gan athrawon. Mae'r data sy'n cael ei gynhyrchu gan y ffynonellau hyn yn cael ei fwydo i'r system olrhain. Mae data gwerth ychwanegol o gyfnod allweddol 1 i gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i nodi tueddiadau.

Ym mron pob dosbarth a arsylwyd arno, mae enghreifftiau da o hunanarfarnu gan ddisgyblion. Mewn ychydig ddosbarthiadau, mae cysylltiadau wedi'u cynllunio'n dda rhwng meini prawf llwyddiant ac amcanion dysgu a deilliannau dysgu. Hefyd, mae rhai enghreifftiau da o osod targedau unigol i ddisgyblion ac asesu meddylgar drwy arsylwi. Fodd bynnag, nid yw arfer dda o'r fath yn cael ei chymhwyso'n gyson ar draws yr ysgol. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran datblygu portffolios pwnc ysgol ar y cyd â chlwstwr yr ysgolion uwchradd leol. Mae'r ysgol yn cydnabod bod hwn yn faes i'w ddatblygu ymhellach.

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu proses ar gyfer gosod targedau, asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Er bod gweithdrefnau wedi gwella, nid yw pob athro/athrawes yn marcio gwaith yn gyson, yn gosod targedau ar gyfer gwella nac yn cofnodi deilliannau'n glir, fel bod y broses asesu'n cael effaith uniongyrchol ar ddysgu pob disgybl. Mae angen i'r holl staff roi'r polisi marcio newydd ei ddatblygu ar waith yn gyson i wneud yn siŵr bod pob disgybl yn ymwybodol o'u cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu gwaith. Mae staff yn

cymhwyso technegau asesu ar gyfer dysgu yn anghyson, ond mae'r holl staff yn dod yn fwy cyfarwydd â'r technegau hyn.  Mae'r dulliau hyn yn cael effaith dda ar ddysgu mewn dosbarthiadau lle maent yn gweithio'n dda.

**A4 rhoi sylw i'r diffygion yng ngweithdrefn hunanarfarnu'r ysgol**

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.  Mae ganddi brosesau ar waith i drafod materion gwella sy'n cynnwys y rhan fwyaf o bobl sydd â budd ynddynt.  Mae'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad yn enghraifft dda o'r cydweithredu sy'n bodoli bellach rhwng yr holl aelodau staff.  Mae cyflwyno system i arfarnu effeithiolrwydd cynllunio gan athrawon, ochr yn ochr â help yr awdurdod lleol i roi system o arsylwi ar wersi ar waith, wedi galluogi arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol i gynnwys y corff llywodraethol er mwyn monitro cynnydd addysgu a dysgu ar draws yr ysgol yn fwy effeithiol; a

**A7 diwygio cynlluniau cwricwlaidd ysgol-gyfan i gwrdd â gofynion cwricwlwm 2008.**

Mae'r pennaeth dros dro wedi ailddyrannu cyfrifoldebau am gynllunio'r cwricwlwm i gydlynwyr y cwricwlwm.  Mae'r broses hon yn helpu sicrhau parhad a dilyniant gwell yn yr addysgu a'r dysgu.

**Argymhellion ar gyfer gwella ymhellach**

Er mwyn adeiladu ar y cynnydd hwn, dylai'r ysgol:

**A1:** gryfhau ymhellach y gweithdrefnau ar gyfer rhannu'r arfer dda mewn addysgu;

**A2:** parhau i gryfhau'r gwaith o godi safonau mewn Cymraeg, yn enwedig medrau siarad ac ysgrifennu disgyblion; a

**A3:** sicrhau cysondeb mewn asesu, cofnodi a marcio ar draws yr ysgol.